



CYNLLUNIAU MARCIO SAFON UWCH

HAF 2025

CYMRAEG AIL IAITH - UNED 6
SAFON UWCH
1020U60-1

Ynglŷn â'r cynllun marcio hwn

Pwrpas y cynllun marcio hwn yw sicrhau bod athrawon, dysgwyr a phartïon eraill â diddordeb yn deall y meini prawf asesu a ddefnyddiwyd i asesu'r asesiad penodol hwn.

Marciwyd yr asesiad hwn yn ôl meini prawf penodol mewn cyfres fyw ac mae'r cynllun marcio hwn yn adlewyrchu hynny. Cafodd y ddogfen ei phenderfynu'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn gynhadledd arholwyr. Derbyniodd tîm o arholwyr cymwys hyfforddiant penodol ar sut i gymhwyso'r cynllun marcio hwn. Bwriad y gynhadledd oedd sicrhau bod yr holl arholwyr yn dehongli ac yn cymhwyso'r cynllun marcio yn yr un modd. Efallai nad yw'n bosibl, nac yn briodol, i'r cynllun marcio hwn gynnwys pob amrywiad y gall ymgeisydd ei gyflwyno mewn ymateb. Fodd bynnag, yn ystod y gynhadledd arholwyr, derbyniodd arholwyr gyfarwyddyd ar sut i ddefnyddio eu barn broffesiynol i wobrwyo ymatebion amgen oedd yn ddilys. Derbyniwyd cyfarwyddyd hefyd yn y ddogfen hon ac adolygwyd ymatebion enghreifftiol.

Gan nad ydynt wedi gallu manteisio ar gymryd rhan yn y gynhadledd arholwyr, mae'n bosibl bod safbwynt athrawon, dysgwyr a defnyddwyr eraill yn mynd i fod yn wahanol o ran rhai manylion neu ddehongliad. Argymhellir yn gryf felly bod y cynllun marcio hwn yn cael ei ddefnyddio ochr yn ochr ag unrhyw gyfarwyddyd arall a gyhoeddwyd, fel enghreifftiau patrymol neu Ganllawiau i Athrawon. Y cynllun marcio hwn yw'r un terfynol. Ni fydd yn cael ei newid onid yw'n amlwg bod gwall yn y ddogfen. Mae'n adlewyrchu'r meini prawf a ddefnyddiwyd i asesu ymatebion ymgeiswyr yn ystod y gyfres fyw.

TAG CYMRAEG AIL IAITH – SAFON UWCH

UNED 6 - DEFNYDDIO IAITH A'R STORI FER

CYNLLUNIAU MARCIO HAF 2025

Adran A – Defnyddio iaith

- 1(i) Mae'r poster ar dudalen 3, **Gwersyll Amgylcheddol a Lles Cyntaf yr Urdd**, ar yr hysbysfwrdd yn ystafell y chweched dosbarth yn eich ysgol. Rydych chi eisiau ymweld â'r gwersyll gyda'ch ffrindiau.

Ysgrifennwch ebost at bennaeth y gwersyll yn dweud bod gennych ddiddordeb ac hefyd yn gofyn am ragor o wybodaeth.

(Tua **150** o eiriau)

[20]

Yn yr ebost **dylech chi**:

- gyflwyno eich hun, dweud pam rydych chi'n anfon yr ebost a ble weloch chi'r poster
- mynegi eich barn am y ffaith bod yr Urdd wedi sefydlu Gwersyll Amgylcheddol a Lles i bobl ifanc gymdeithasu a gweithio gyda'i gilydd
- cyfeirio at y ffaith bod y gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg
- mynegi eich barn am y gweithgareddau a'r profiadau sydd ar gael yn y gwersyll i bobl ifanc
- sôn am y pethau sy'n apelio atoch o ran profiadau, llety a bwyd gan gynnig rhesymau
- dweud cymaint yr hoffech chi ymweld â'r gwersyll, gyda phwy a phryd
- gofyn am ragor o wybodaeth am y pris, y dyddiadau sydd ar gael, yr opsiynau dietegol ac yn y blaen
- cyfeirio at unrhyw beth arall sy'n bwysig i chi.

Pentre Ifan: Gwersyll Amgylcheddol a Lles Cyntaf yr Urdd

Lleoliad: Felindre Farchog, Crymch, Sir Benfro

Nod y Gwersyll: Cynnig gweithgareddau a phrofiadau sy'n annog pobl ifanc i weithio gyda'i gilydd trwy gyfrwng y Gymraeg.

er enghraifft, gofalu am eu lles
gofalu am yr amgylchedd
cyfrannu at ddyfodol mwy gwyrdd

Llety:

Cwt Carningli – llety newydd sy'n cynnwys
5 ystafell ensuite

Y Porthdy – adeilad hynaf y gwersyll (dyddiad:1485)

Y Berllan – pabell saffari yn ardal glampio'r berllan.

Lle i fwyta:

Cegin allanol gymdeithasol gyda popty pizza a barbeciw

Neuadd y Porthdy gyda lle i hyd at 50 o bobl fwyta

*Gellir darparu ar gyfer pob math o anghenion dietegol.

Pentre Ifan mewn **TRI** gair:

NATUR LLES PROFIADAU

Am ragor o wybodaeth:

Cysylltwch â Delun Gibby, Pennaeth y Gwersyll
ebost: delungibby@urdd.org



Agor y Ganolfan ym Medi 2023



Dod i adnabod y gwersyll.



Llety: Cwt Carningli



Y gegin allanol a'r pobty pizza

MARC	AA3	
16-20	BAND 1 Bydd ymgeiswyr yn: - ymateb i bob agwedd o'r cwestiwn yn gydlynol ac yn effeithiol gan ddangos gwreiddioldeb - adnabod y blaenoriaethau arwyddocaol wrth ddadansoddi, gwerthuso ac ymateb i'r wybodaeth - trefnu ac addasu'r gwaith mewn modd sy'n dangos ymwybyddiaeth o'r pwrpas a'r gynulleidfa ac yn creu effaith	BAND 1 Bydd ymgeiswyr yn: - defnyddio ystod eang o eirfa heriol ac addas yn hyderus i gyfleu ystyr benodol gywir - defnyddio cywair cwbl addas i'r dasg a'r gynulleidfa - defnyddio amrywiaeth o frawddegau addas ac effeithiol - arddangos gafael sicr iawn ar ramadeg, treigladau a berfau
13-15	BAND 2 Bydd ymgeiswyr yn: - ymateb i'r rhan fwyaf o elfennau'r cwestiwn yn hyderus gan ddangos gwreiddioldeb - adnabod y rhan fwyaf o'r blaenoriaethau a'r manylion arwyddocaol wrth ddadansoddi, gwerthuso ac ymateb i'r wybodaeth - trefnu ac addasu'r gwaith mewn modd sydd yn briodol i'r pwrpas a'r gynulleidfa	BAND 2 Bydd ymgeiswyr yn: - defnyddio ystod eang o eirfa'n gywir - defnyddio cywair priodol i'r dasg a'r gynulleidfa'n gyson - defnyddio amrywiaeth o frawddegau i greu effeithiau arbennig - arddangos gafael sicr ar ramadeg, treigladau a berfau.
10-12	BAND 3 Bydd ymgeiswyr yn: - ymateb i brif elfennau'r cwestiwn yn effeithiol gan ddangos peth gwreiddioldeb - adnabod nifer o'r blaenoriaethau a'r manylion arwyddocaol wrth ddadansoddi, gwerthuso ac ymateb i'r wybodaeth - trefnu ymateb sydd yn briodol i'r pwrpas a'r gynulleidfa	BAND 3 Bydd ymgeiswyr yn: - defnyddio ystod dda o eirfa yn eithaf cywir - arddangos ymwybyddiaeth o gywair priodol i'r dasg a'r gynulleidfa - arddangos gafael gyson ar ramadeg ar y cyfan tra mae'r mwyafrif o'r treigladau a'r berfau'n gywir - defnyddio amrywiaeth o frawddegau i greu effeithiau arbennig
7-9	BAND 4 Bydd ymgeiswyr yn: - ymateb yn syml i rai o elfennau'r cwestiwn - adnabod rhai o'r blaenoriaethau wrth ymateb i'r wybodaeth - gwneud peth ymgais i drefnu ymateb sy'n briodol i'r pwrpas a'r gynulleidfa	BAND 4 Bydd ymgeiswyr yn: - defnyddio peth ystod o eirfa - arddangos peth ymwybyddiaeth o gywair priodol i'r dasg a'r gynulleidfa - arddangos gafael eitha anghyson ar ramadeg er bod y treigladau a'r berfau'n eithaf cywir - amrywio'r brawddegau rhywfaint
4-6	BAND 5 Bydd ymgeiswyr yn: - ymateb yn fyr i nifer gyfyngedig o elfennau'r cwestiwn - ymateb i'r manylion symlaf yn unig - arddangos peth ymwybyddiaeth o'r pwrpas	BAND 5 Bydd ymgeiswyr yn: - defnyddio ystod gyfyngedig o eirfa a brawddegau - arddangos gafael gyfyngedig ar ramadeg, treigladau a berfau
0-3	Bydd yr ymgeiswyr yn arddangos rhai nodweddion cadarnhaol ar adegau yn unig.	

- 1(ii) Ar ei wefan mae'r clwb chwaraeon lleol yn awyddus i godi ymwybyddiaeth o broblemau gyda chyffuriau. Mae'r darn hwn yn delio gyda'r angen i brofi cystadleuwyr cyn iddyn nhw berfformio. Mae rheolwr y ganolfan wedi gofyn am eich help i ddewis y gair cywir sydd wedi cael eu rhifo 1-10 yn y cromfachau isod. **[10]**

Nod chwaraeon yw cystadlu'n deg ond yn ddiweddar mae athletwyr wedi defnyddio cyffuriau i wella **1**(ei/eu) perfformiad. Mae hyn yn rhoi mantais annheg **2**(iddon/iddyn) nhw dros gystadleuwyr **3**(arall/eraill). Os yw athletwr yn cymryd ffisig at annwyd ni **4**(dylai/ddylai) gystadlu.

Mewn cystadleuaeth **5**(bwysig/pwysig) mae llawer o brofi'n digwydd ond dydy pawb **6**(dim/ddim) yn cael eu dal. Fodd bynnag, os **7**(byddan/bydden) nhw'n cael eu dal **8**(bydd/byddai) cosb.

Ond y cwestiwn yw oes digon o brofi? Gyda mwy o brofi efallai byddai pethau'n gwella. Dylai hyfforddwyr siarad **9**(i/ar/â'r) athletwyr am y broblem pan **10**(mae'n/maen) nhw'n ymarfer yn eu clybiau.

1 marc ar gy1 marc am bob ateb cywir.

1. eu
2. iddyn
3. eraill
4. ddylai
5. bwysig
6. ddim
7. byddan
8. bydd
9. â'r
10. maen

Adran B – Y Stori Fer

MARC	AA2 (i) (ii) (iii)	MARC	AA3 (i) (ii) (iii)
(i) (ii) 8-10 (iii) 24-30	BAND 1 Bydd ymgeiswyr yn: • arddangos gwybodaeth eang o'r testun a dealltwriaeth manwl-gywir o'r cysyniadau • llunio ymateb personol i'r testun gan gyflwyno dadleuon gwreiddiol, treiddgar ac arddangos aeddfedrwydd barn • defnyddio dyfyniadau'n gywir ac yn bwrpasol • croesgyfeirio rhwng gwahanol agweddau o'r pwnc yn ôl yr angen	(i) (ii) 5 (iii) 8-10	BAND 1 Bydd ymgeiswyr yn: • mynegi eu hunain yn aeddfed, yn glir ac yn gywir • saernïo'u gwaith yn fanwl a gofalus • rhoi sylw gofalus i gywair drwy amrywio'r arddull yn sensitif yn ôl yr angen • arddangos amrywiaeth eang iawn o adnoddau iaith a gafael gadarn ar ramadeg a chystrawen
(i) (ii) 7 (iii) 21-23	BAND 2 Bydd ymgeiswyr yn: • arddangos gwybodaeth fanwl o'r testun a'r cysyniadau • llunio ymateb personol i'r testun yn ddeallus ac yn ddychmygus gan gyflwyno dadleuon gwreiddiol • datblygu ac ehangu syniadau'n drefnus • defnyddio dyfyniadau'n gywir a pherthnasol • croesgyfeirio rhwng gwahanol agweddau o'r pwnc yn ôl yr angen	(i) (ii) 4 (iii) 7	BAND 2 Bydd ymgeiswyr yn: • mynegi eu hunain yn ddeallus, yn glir ac yn gywir • cynllunio'u gwaith yn fanwl • rhoi sylw gofalus i gywair drwy amrywio'r arddull yn briodol yn ôl yr angen • arddangos amrywiaeth helaeth o adnoddau iaith a gafael dda iawn ar ramadeg a chystrawen
(i) (ii) 6 (iii) 15-20	BAND 3 Bydd ymgeiswyr yn: • arddangos gwybodaeth helaeth o'r testun a'r cysyniadau • llunio ymateb personol i'r testun gan gyflwyno dadleuon gwreiddiol gan amlaf • datblygu ac ehangu syniadau'n drefnus • defnyddio dyfyniadau perthnasol • croesgyfeirio rhwng rhai agweddau o'r pwnc yn ôl yr angen	(i) (ii) 3 (iii) 5-6	BAND 3 Bydd ymgeiswyr yn: • mynegi eu hunain yn glir ac yn gywir • saernïo'u gwaith yn ofalus • rhoi sylw gofalus i gywair drwy amrywio'r arddull • arddangos amrywiaeth o adnoddau iaith a gafael dda ar ramadeg a chystrawen

(i) (ii) 5 (iii) 12-14	BAND 4 Bydd ymgeiswyr yn: • arddangos gwybodaeth briodol o'r testun a'r cysyniadau • llunio ymateb personol i'r testun gan gyflwyno dadleuon digonol • datblygu ac ehangu syniadau'n drefnus ar adegau'n unig • dyfynnu o'r testun yn achlysurol • cyfeirio at rai o wahanol agweddau'r pwnc	(i) (ii) 2 (iii) 4	BAND 4 Bydd ymgeiswyr yn: • mynegi eu hunain yn eitha chlir a chywir • cynllunio'u gwaith yn eitha gofalus • arddangos peth ymwybyddiaeth o drefn, dilyniant a chywair wrth gyflwyno'u gwaith • arddangos gafael dda ar adnoddau iaith, gramadeg a chystrawen
(i) (ii) 4 (iii) 7-11	BAND 5 Bydd ymgeiswyr yn: • arddangos peth gwybodaeth o gynnwys y testun • llunio ymateb personol gan gyflwyno dadleuon yn syml • datblygu syniadau'n weddol drefnus ar adegau • dyfynnu o'r testun yn achlysurol • diffyg cyfeirio at wahanol agweddau'r pwnc	(i) (ii) 1 (iii) 2-3	BAND 5 Bydd ymgeiswyr yn: • mynegi eu hunain yn glir ac yn gywir ar y cyfan • cynllunio'u gwaith yn ofalus ar adegau'n unig • arddangos peth ymwybyddiaeth o gywair wrth gyflwyno'u gwaith • defnyddio ystod gyfyngedig o eirfa a phatrymau addas a pheth gafael ar ramadeg a chystrawen
(i) (ii) 0-3 (iii) 0-6	BAND 6 • Bydd yr ymgeiswyr yn arddangos rhai nodweddion cadarnhaol ar adegau yn unig.	(i) (ii) 0 (iii) 1	BAND 6 • Bydd yr ymgeiswyr yn arddangos rhai nodweddion cadarnhaol ar adegau yn unig

Cwestiynau penodol y Stori Fer

- 2(i) Yn y darn o'r stori fer *Beth os?* gan Llio Mai Hughes **ar dudalen 5** gwelwn mai Maldwyn sy'n rheoli'r sefyllfa yn y swyddfa ar y dechrau ond ar ddiwedd y darn mae Ceri'n colli ei thymher ac yn rhoi llond ceg i Maldwyn, ei bós.

Ydych chi'n meddwl bod Ceri'n gwneud y peth iawn yn colli ei thymher ac yn dweud ei meddwl cyn rhoi'r gorau i'w swydd a pharatoi i fynd i Awstralia at Marc? (Ysgrifennwch tua 100 o eiriau) [15]

Gallech chi gyfeirio at:

- y ffaith bod Maldwyn ddim wedi ymddwyn mewn ffordd gyfrifol ar ddechrau'r darn
- y ffordd mae Maldwyn yn trin Ceri pan pan mae hi'n gwrthod y cynnig am gusan
- agwedd annerbyniol Maldwyn tuag at Ceri
- y ffaith bod Maldwyn yn defnyddio'i statws yn y swyddfa i gael ei ffordd ei hun trwy gydol y darn
- barn Ceri wrth iddi feddwl 'Doedd ganddo fo mo'r hawl i'w thrin hi fel 'na'
- y posibilrwydd bod Ceri wedi mynd yn rhy bell pan mae hi'n defnyddio'r geiriau 'jobsys *crap*' a 'sdwffia dy job'
- y risg mae Ceri'n ei gymryd yn mynd i Awstralia i dreulio'r Nadolig gyda dyn dydy hi ddim wedi cwrdd ag o eto.

Gellir disgwyl y math yma o gynnwys:

Cyfeiriad at:

- y ffaith bod Maldwyn yn ymddwyn yn chaufinistig ac yn dangos diffyg cyfrifoldeb o'r cychwyn cyntaf drwy gymryd mantais o Ceri.
- ymateb Maldwyn pan y mae Ceri'n gwrthod ei gynnig am gusan o dan yr uchelwydd sy'n dangos ei fod yn meddwl bod ganddo'r hawl i ymddwyn fel hyn ac yn haeddu cael ei ffordd ei hun oherwydd ei statws fel rheolwr y swyddfa.
- y ffordd mae Maldwyn yn trio dangos bod ganddo bwer dros Ceri.
- y ffaith bod Ceri wedi synnu gan ei ymateb ac yn sicr ddim yn deall pam roedd e wedi dewis ei thrin hi fel hyn.
- y geiriau 'Doedd ganddo fo mo'r hawl i'w thrin hi fel 'na ...'
- agwedd blentynnaidd Maldwyn o ymateb trwy bwdu pan dydy e ddim yn cael ei ffordd ei hun.
- y ffordd hollol amharchus ac anghwrtais mae e'n trin merched
- eich barn ynglŷn â'r ffaith bod Ceri 'n hollol ddoeth pan mae hi'n colli ei thymher ac yn dweud wrtho 'sdwffia dy job'
- y ddadl bod Ceri wedi mynd yn rhy bell pan mae hi'n rhoi llond ceg iddo gan gyfeirio at y 'jobsys bach *crap*' mae e'n mynnu ei bod hi'n eu gwneud.
- y geiriau 'Dw i wedi cael llond bol ...' Oes modd cyfliawnhau'r ffordd mae hi'n siarad â'i bós?
- bod Ceri wedi gwneud ffŵl ohoni'i hun yn gadael i'w thymher gael y gorau ohoni.
- y risg mae Ceri'n gymryd wrth iddi fynd i Awstralia i dreulio'r Nadolig gyda dyn dydy hi ddim wedi cwrdd ag e wyneb yn wyneb hyd yn hyn.

*Disgwylir i'r ymgeisydd ddod i benderfyniad ar y diwedd

- (ii) Yn y darn ar **dudalen 5** mae'r awdur yn defnyddio'r technegau canlynol sy'n ychwanegu at lwyddiant y darn.

brawddegau hir
hiwmor
geiriau sy'n dangos teimladau Ceri a Maldwyn

Rhowch enghreifftiau o'r **technegau hyn** gan ddweud sut maen nhw'n helpu'r awdur i gyfleu emosiwn **y darn**.

(Ysgrifennwch tua 100 o eiriau)

[15]

Disgwylir i'r ymgeisydd ddewis enghreifftiau gan esbonio'u llwyddian fel a ganlyn:	
Y Dechneg	Effaith ar lwyddiant y darn
Brawddegau hir	Mae'r brawddegau hir, yn arbennig yn y naratif, yn arafu tempo'r darn er mwyn pwysleisio'r ffordd y mae'r awyrgylch yn y swyddfa wedi newid. Maen nhw'n ein helpu ni'r darllenwyr i sylweddoli'r teimladau cryf sydd wedi codi i'r wyneb mewn amser byr iawn. er ernghraifft, (i) y siom mae Maldwyn yn ei deimlo o gael ei wrthod ac hefyd pa mor awyddus mae e i ddial ar Ceri. (ii) y sioc mae Ceri'n gael o sylweddoli bod gan Maldwyn 'mo'r hawl' i'w thrin hi fel 'na. (iii) y rhwystredigaeth mae Ceri'n deimlo yn enwedig pan mae hi'n taro'r mwg o de dros y ffurflenni ar ei desg – 'dyna oedd ei diwedd hi' – dyna beth gwthiodd hi dros ben y dibyn. Mae'r defnydd o frawddegau hir yn y paragraff olaf ond un yn llwyddo i wneud i ni deimlo'r un rhyddhâd a chyffro a Ceri wrth iddi 'gamu allan o'r mwg yn berson hollol wahanol'.

Geiriau sy'n cyfleu hiwmor y darn: ... yn debycach i'r Grinch jobsys bach <i>crap</i> Sdwffia dy job ... Nadolig Llawen! ... fel petai hi ar <i>Stars in their eyes</i>.	Mae'r geiriau hyn yn llwyddo i ysgafnhau rhywfaint ar y tensiwn sydd i'w deimlo'n y swyddfa. Hefyd gellir dadlau bod yr awdur yn gwneud i ni'r darllenwyr deimlo bod Ceri'n llwyddo i wneud hwyl am ben Maldwyn mewn ffordd eithaf creulon ac yn awgrymu bod y gwaith yn y swyddfa ddim yn bwysig – 'y jobsys bach crap'. Yn yr un ffordd mae'r geiriau 'Sdwffia dy job ...' yn dangos nad oes gan Ceri fawr o barch tuag at ei bós ond ar yr un pryd mae'r awdur yn llwyddo i wneud i ni chwerthin am ben Maldwyn a'r ffordd mae e wedi ymddwyn. Yn arbennig, mae'n rhaid cofio bod y Grinch yn gymeriad annymunol a doniol yr olwg sy'n troi'n flin gyda phawb os nad ydy e'n cael ei ffordd ei hun. Mae'r hiwmor yn amlwg felly pan ddarllenwn ni bod Maldwyn yn 'debycach i'r Grinch' wedi iddo gael ei siomi. Mae cyfeirio at y rhaglen deledu <i>Stars in their Eyes</i> yn sicr yn dod â hiwmor i'r darn ac yn lleihau tensiwn unwaith eto. Mae'r ebychnod yn awgrymu nad ydy Ceri am i Maldwyn gael <i>Nadolig Llawen</i> yn y pendraw. Mae'r cyfarchiad 'tafod mewn boch' yn dangos bod Ceri'n berson sy'n gallu delio gyda dynion o deip Maldwyn ac mae'n profi hefyd bod ganddi reolaeth llwyr dros y sefyllfa mewn gwirionedd (ac efallai mai hyn sy'n gwneud ei bós mor sarrug).
Geiriau sy'n dangos teimladau Ceri a Maldwyn: cael ei siomi yn sarrug pdu yr emosiynau sy'n nodweddu cymeriad Maldwyn. yn gegrwth y teimlad bod ganddo 'mo'r hawl' anniddig wedi cael llond bol crynu gan gynnwrf Ceri	Mae'r dechneg o ddefnyddio geiriau sy'n cyfeirio at emosiynau personol cryf sy'n nodweddu'r cymeriadau'n llwyddiannus oherwydd iddynt danlinellu'r gwahaniaeth rhwng y ddau gymeriad yn y darn. Mae'r ffordd mae Maldwyn yn ymateb i'r sefyllfa yn un hunanol ac yn ei bortreadu fel person sy'n meddwl ei fod yn bwysicach nag y mae e mewn gwirionedd. Dydy e ddim yn meddwl iddo wneud unrhyw beth anghywir. Mae'r awdur yn llwyddo i droi'r darllenwyr yn erbyn Maldwyn. Ar yr un pryd mae'r awdur am i ni gydymdeimlo â Ceri efallai oherwydd bod yr emosiynau mae hi'n eu teimlo'n dangos iddi gael ei brifo a bod Maldwyn wedi ei thrin fel rhywun mae e'n gallu cymryd mantais ohoni. Mae'r geiriau 'wedi cael llond bol', 'anniddig' 'crynu gan gynnwrf' yn llwyddo i ddangos yr effaith annheg mae ymddygiad Maldwyn wedi'i gael arni, a heb iddi hi roi achos iddo wneud hynny. Mae'r teimlad nad oedd gan Maldwyn 'mo'r hawl' i'w thrin fel 'na' yn arbennig o drist ac yn tanlinellu'r sioc a'r syndod.

- (iii) Prif thema'r darn ar **dudalen 5** yw diffyg cyfrifoldeb ac yn benodol **y ffordd mae diffyg cyfrifoldeb yn gallu achosi i bobl wneud penderfyniadau sydd ddim bob amser yn rhai cywir**. Manylwch ar hyn gan gyfeirio at unrhyw lenyddiaeth a ddarllenwyd neu lonyddiaeth a wylwyd gennych sy'n ymdrin â'r un thema **a'u cysylltu gyda'r darn**.

(Cwestiwn synoptig – tua **300** o eiriau)

[40]

*Mae'r cynllun marcio ar gyfer y cwestiwn hwn ar dudalen 12.

Ar hynny, pwy gyrhaeddodd ond Maldwyn. Aeth Rachel yn ôl at ei desg, cododd Ceri a daeth Maldwyn y tu ôl i'r ddesg i sefyll wrth ei hochr. Cododd ddarn o uchelwydd uwch eu pennau.

'Sgin ti sws i Siôn Corn 'ta?' medda fo, wrth roi ei law am ei chanol.

Symudodd Ceri oddi wrtho. 'Dwi'm yn meddwl bo' hynny'n syniad da iawn,' atebodd.

Newidiodd Maldwyn o fod yn Siôn Corn hapus i fod yn debycach i'r Grinch. Doedd o'n amlwg ddim wedi disgwyl cael ei siomi.

'Wel, gan bo' gen ti ddigon o amser i fod yn sgwrsio efo Rachel, be' am i ti orffen yr adroddiad 'na i mi erbyn diwedd y dydd er mwyn i ti gael cychwyn ar y ffurflenni 'na fory?' meddai Maldwyn yn sarrug cyn troi ar ei sawdl a mynd yn ôl i'w swyddfa.

Eisteddodd Ceri yn ei sedd yn gegrwth. Doedd dim rhaid i'r adroddiad fod i mewn tan ar ôl y flwyddyn newydd! Doedd ganddo fo mo'r hawl i'w thrin hi fel 'na ac yna pwdu pan nad oedd o'n cael ei ffordd ei hun. Wrth i'r munudau fynd heibio roedd hi'n mynd yn fwy ac yn fwy anniddig. A phan drawodd fwg o de dros y ffurflenni ar ei desg, dyna oedd ei diwedd hi. Cododd, ac anelu'n syth am swyddfa Maldwyn.

'Dw i wedi cael llond bol o wneud yr un peth drosodd a throsodd, a gneud jobsys bach *crap* dros bawb arall. Sdwffia dy job, dw i'n rhoi'r gora' iddi. Nadolig Llawen!'

Ac i ffwrdd â hi. Roedd o fel petai hi ar *Stars in their Eyes* ac wedi camu allan o'r mwg yn berson hollol wahanol. Cyrhaeddodd adref ac roedd ei dwylo'n crynu gan gynnwrf wrth iddi bacio'i chês.

Daliodd y trê'n o Rosneigr, tecstio'r newyddion da i Marc, ac mewn dim roedd hi ym maes awyr Manceinion.

(Y darn sydd ar **dudalen 5** y papur arholiad.)

Cynllun Marcio Cw. 2iii - Synoptig

